

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr
(Cymru)

Proposed Carers Strategies (Wales) Measure

Caiff y Mesur ei ystyried yn y drefn a ganlyn –

The Measure will be considered in the following order –

Sections 1-10

Adrannau 1-10

New Sections

Adrannau Newydd

Long Title

Teitl Hir

Darren Millar

17

Section 1, page 2, line 5, after 'individual', insert 'who is a primary or secondary carer, including a carer under the age of 18,'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 5, ar ôl 'unigolyn', ychwanegwch 'sy'n brif ofalwr neu'n ail ofalwr, gan gynnwys gofalwr dan 18 oed,'.

Darren Millar

18

Section 1, page 2, after line 9, insert –

- () "primary carer" means a carer who is assuming the main caring role in respect of an individual.
- () "secondary carer" means a carer who is not assuming the role of primary carer.'.

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 8, ychwanegwch—

- () ystyr "prif ofalwr" yw gofalwr sy'n ysgwyddo'r brif rôl ofalu mewn perthynas ag unigolyn.
- () ystyr "ail ofalwr" yw gofalwr nad yw'n ysgwyddo rôl prif ofalwr.'.

Gwenda Thomas

1

Section 2, page 2, line 18, after 'require', insert 'a relevant authority, or'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 18, ar ôl 'i', ychwanegwch 'awdurdod perthnasol, neu'.

Gwenda Thomas

2

Section 2, page 2, line 19, leave out 'they' and insert 'the authority will work, or the authorities'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 19, gadewch allan 'byddant' a rhowch yn ei le 'bydd yr awdurdod yn gweithio neu'r awdurdodau'.

Eleanor Burnham

23

Section 2, page 2, line 20, after 'provide', insert ', promote and communicate'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 21, ar ôl 'ddarparu', ychwanegwch ', hyrwyddo a chyfleu'.

Gwenda Thomas

3

Section 2, page 2, line 21, leave out 'any of those authorities' and insert 'an authority'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 22, gadewch allan 'un o'r awdurdodau hynny' a rhowch yn ei le 'awdurdod'.

Gwenda Thomas

4

Section 2, page 2, line 24, leave out 'the authorities consult carers before they make' and insert 'each authority consults carers before it makes'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 26, gadewch allan 'yr awdurdodau yn ymgynghori â gofalwyr cyn eu bod' a rhowch yn ei le 'pob awdurdod yn ymgynghori â gofalwyr cyn ei fod'.

Eleanor Burnham

22

Section 2, page 2, line 24, after 'carers', insert 'and pay due regard to carers' representations'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 26, ar ôl 'gofalwyr', ychwanegwch 'ac yn rhoi sylw dyledus i sylwadau gan ofalwyr'.

Gwenda Thomas

5

Adran 2, tudalen 2, llinell 28, gadewch allan 'maent' a rhowch yn ei le 'mae'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Eleanor Burnham

24

Section 2, page 3, line 5, after 'council', at the second place where it appears, insert 'including the educational services of that county or county borough council'.

Adran 2, tudalen 3, llinell 6, ar ôl 'sirol', ychwanegwch ', gan gynnwys gwasanaethau addysgol y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol hwnnw'.

Eleanor Burnham

25

Section 3, page 3, line 12 leave out –

‘likely to be of interest or benefit to carers in their role as such, or to the person cared for.’,
and insert –

‘relevant, comprehensive, informative, up to date and of benefit to carers or to the persons
cared for, and which is likely to be of assistance to carers in enabling them to carry out their
roles effectively.’.

Adran 3, tudalen 3, llinell 13, gadewch allan –

‘debyg o fod o ddiddordeb neu fudd i ofalwyr yn eu rôl fel y cyfryw, neu i’r person y gofelir
amdano.’,

a rhowch yn ei le –

‘berthnasol, yn gynhwysfawr, yn addysgiadol, yn gyfoes ac sydd o fudd i ofalwyr neu i’r
personau y gofelir amdanynt, ac sy’n debygol o fod o gymorth i ofalwyr wrth alluogi iddynt
gyflawni eu swyddogaethau’n effeithiol.’.

Darren Millar

20

Section 4, page 3, line 20, leave out ‘or may’.

Adran 4, tudalen 3, llinell 21, gadewch allan ‘, neu y caniateir.’.

Darren Millar

19

Section 4, page 3, after line 21, insert –

‘() The provision includes, but is not limited to –

- (a) stakeholder meetings,
- (b) a survey of all carers and service users, and
- (c) a minimum 28 day consultation period within which interested parties must
be consulted.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 22, ychwanegwch –

- () Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys, ond nid yw wedi'i chyfyngu i'r canlynol
- (a) cyfarfodydd rhanddeiliaid,
 - (b) arolwg o'r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau, ac
 - (c) isafswm cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod y mae'n rhaid ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb.'.

Gwenda Thomas

6

Section 5, page 3, line 36, after 'strategy', insert 'for which there is more than one responsible authority'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 37, ar ôl 'strategaeth', ychwanegwch 'pan fo mwy nag un awdurdod cyfrifol'.

Gwenda Thomas

7

Section 5, page 3, line 36, leave out 'an NHS organisation' and insert 'one of them'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 37, gadewch allan 'gorff GIG' a rhowch yn ei le 'un ohonynt'.

Gwenda Thomas

8

Section 5, page 4, line 1, leave out subsection (4).

Adran 5, tudalen 4, llinell 1, gadewch allan is-adran (4).

Gwenda Thomas

9

Section 6, page 4, line 4, leave out subsection (1) and insert –

- () Each strategy must be submitted in draft to the Welsh Ministers by –
- (a) the responsible authority, if there is only one responsible authority;
 - (b) the lead authority, if there is more than one responsible authority (or, where there is no lead authority, the responsible authorities acting together).'

Adran 6, tudalen 4, llinell 4, gadewch allan is-adran (1) a rhowch yn ei lle –

- () Rhaid i bob strategaeth gael ei chyflwyno ar ffurf drafft i Weinidogion Cymru gan –
- (a) yr awdurdod cyfrifol, os dim ond un awdurdod cyfrifol sydd;
 - (b) yr awdurdod arweiniol, os oes mwy nag un awdurdod cyfrifol (neu, pan na fo unrhyw awdurdod arweiniol, yr awdurdodau cyfrifol yn gweithredu ar y cyd).’.

Gwenda Thomas

10

Section 6, page 4, line 7, after ‘responsible’, insert ‘authority or’.

Adran 6, tudalen 4, llinell 8, ar ôl ‘hysbysu’r’, ychwanegwch ‘awdurdod neu’.

Gwenda Thomas

11

Section 6, page 4, line 9, after ‘responsible’, insert ‘authority or’.

Adran 6, tudalen 4, llinell 11, ar ôl ‘i’r’, ychwanegwch ‘awdurdod neu’.

Gwenda Thomas

12

Section 6, page 4, line 12, after ‘responsible’, insert ‘authority or’.

Adran 6, tudalen 4, llinell 14, ar ôl ‘i’r’, ychwanegwch ‘awdurdod neu’.

Eleanor Burnham

26

Section 7, page 4, after line 22, insert –

- () A strategy must be brought to the attention of carers and the persons cared for and must be made widely available, easily accessible and provided in a timely manner upon request.’.

Adran 7, tudalen 4, ar ôl llinell 23, ychwanegwch –

- () Rhaid tynnu sylw gofalwyr a’r personau y gofelir amdanynt at strategaeth, a rhaid trefnu bod copi ohoni ar gael yn eang, yn hawdd ac yn brydlon ar gais.’.

Gwenda Thomas

15

Section 8, page 4, after line 31, insert –

‘() Subsection (3) does not apply where subsection () applies.’.

Adran 8, tudalen 4, ar ôl llinell 34, ychwanegwch –

‘() Nid yw is-adran (3) yn gymwys pan fo is-adran () yn gymwys.’.

Gwenda Thomas

16

Section 8, page 4, after line 31, insert –

‘() A statutory instrument containing –

- (a) an order made by the Welsh Ministers under section 7A of this Measure, or
- (b) the first regulations made by the Welsh Ministers under each of sections 2(1), 3(2), 4 and 5(1),

(whether or not the instrument also contains provision made under any other section) must not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.’.

Adran 8, tudalen 4, ar ôl llinell 34, ychwanegwch –

‘() Ni chaniateir i offeryn statudol sy’n cynnwys –

- (a) gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 7A o’r Mesur hwn, neu
- (b) y rheoliadau cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un o adrannau 2(1), 3(2), 4 a 5(1),

(p’un a yw’r offeryn hefyd yn cynnwys darpariaeth a wnaed o dan unrhyw adran arall ai peidio) gael ei wneud oni bai bod drafft o’r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.’.

Darren Millar

21

Section 8, page 4, after line 31, insert –

‘() An order made under section 2() may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by resolution of the National Assembly for Wales.’.

Adran 8, tudalen 4, ar ôl llinell 34, ychwanegwch—

‘() Ni chaniateir i orchymyn a wneir o dan adran 2() gael ei wneud oni bai bod drafft o’r offeryn wedi’i osod gerbron y Cynulliad, ac wedi’i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.’.

Gwenda Thomas

13

To insert a new Section—

‘7A Power to add further relevant authorities

The Welsh Ministers may by order amend section 2(3) by adding further bodies or authorities or descriptions of body or authority.’.

I ychwanegu Adran newydd—

‘7A Pŵer i ychwanegu awdurdodau cyfrifol ychwanegol

Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio adran 2(3) drwy ychwanegu cyrff neu awdurdodau ychwanegol neu ddisgrifiadau ychwanegol o gyrff neu awdurdodau.’.

Gwenda Thomas

14

To insert a new Section—

‘7B Amendment to the Local Authority Social Services Act 1970

- (1) The Local Authority Social Services Act 1970 (c. 42) is amended as follows.
- (2) At the end of the table in Schedule 1 to the Act insert—

“Carers Strategies (Wales) Measure 2010	Preparation and implementation of carers strategies.”
---	---

I ychwanegu Adran newydd-

'7B Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970

- (1) Diwygir Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970 (p. 42) fel a ganlyn.
- (2) Ar ddiwedd y Tabl yn Atodlen 1 i'r Ddeddf mewnosoder –

"Carers Strategies (Wales) Measure 2010	Preparation and implementation of carers strategies."
---	---

'.